






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grŵp Cynggori Technegol

Y Dystiolaeth Bresennol mewn
perthynas â Phriodasau

12 Chwefror 2021



Grŵp Cynggori Technegol

Is-grŵp Gwyddor Amgylcheddol

Y Dystiolaeth Bresennol mewn perthynas â Phriodasau

Amlygwyd bod y cysyniad o briodas/partneriaeth sifil a'r gweithgarwch o'u cwmpas yn amrywio yn ôl ffydd, diwylliant a chwaeth bersonol. Mae priodasau a phartneriaethau sifil yn rhan hanfodol o gymdeithas, ac yn uno cyplau i ddechrau eu bywyd newydd gyda'i gilydd a chynnig hawliau cyfreithiol neilltuol iddynt. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r risgiau amgylcheddol allweddol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau priodasau/partneriaethau sifil a gweithgareddau cysylltiedig cyn, yn ystod ac ar ôl y prif ddigwyddiad yng nghyd-destun COVID-19 cyn amlinellu amrywiaeth o opsiynau lliniaru.

Nod y datganiad hwn yw dod â deunydd at ei gilydd i gefnogi barn gyffredinol am briodasau/partneriaeth sifil mewn dau leoliad; y seremoni a'r digwyddiad dathlu, tra'n deall cymhlethdod y gwahanol fathau o briodasau/partneriaethau sifil a'r enwau ar eu cyfer.

Yn y bôn, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod angen i unigolion ddilyn canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar ymddygiad yn ystod y pandemig COVID-19 (golchi dwylo ac ati). Os oes rhaid i bobl hunanynysu oherwydd symptomau COVID-19 neu brawf positif, neu aros mewn cwarantin oherwydd eu bod wedi bod mewn cysylltiad ag achos sydd wedi'i gadarnhau, yna mae'n hanfodol gwneud hynny waeth beth fo'r achlysur⁶.

Mae dystiolaeth yn dal i ddangos bod modd trosglwyddo SARS-CoV-2 drwy dri phrif lwybr: defnynnau anadlol agos ac aerosolau, aerosolau anadlol ag amrediad hirach, a chyswllt uniongyrchol ag arwynebau sydd wedi'u halogi â'r gronynnau feiryol^{1,5}. Mae cyswllt cryf rhwng trosglwyddo SARS-CoV-2 â chyswllt agos dros amser mewn amgylcheddau dan do (hyder uchel)¹ac mae'r risg yn cynyddu wrth i'r cyswllt barhau.

Cydnabyddir bod y rhan fwyaf o achosion o drosglwyddo'r feirws yn digwydd oherwydd rhyngweithio agos a hir â ffrindiau a pherthnasau mewn amgylchedd cyfarwydd a hamddenol (hy mewn llefydd ac mewn sefyllfaoedd sy'n ddiogel yn ein barn ni). Gall hyn arwain at baradocs agosatrwydd lle mae'r llefydd y credwn eu bod yn ddiogel yn beryglus mewn gwirionedd⁶ ac felly mae'r risg o drosglwyddo ar ei huchaf pan fydd pobl yn treulio cyfnodau estynedig o amser yn agos at unigolion heintus⁵. Mae rhyngweithio cymdeithasol dan do yn cynyddu'r risg o ddal yr haint. Mae'r risg yn fwy gyda digwyddiadau mwy a'r rhai sy'n cynnwys pobl o sawl cenhedlaeth (hyder uchel)⁵.

Mae mwy o drosglwyddo'n debygol o ddeillio o fwy o gymysgu cymdeithasol yn ystod dathliadau, sy'n aml yn cynnwys pobl yn ymgasglu tu hwnt i rwydweithiau arferol ac ar draws rhanbarthau, ac mewn grwpiau mwy (hyder uchel)². Mae dystiolaeth dda

hefyd bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau cymdeithasol a dathliadau yn cynyddu'r risg, gan gynnwys mannau bwyta cyffredin a digwyddiadau fel priodasau a phartïon⁵.

Mae'r risgiau mwyaf o drosglwyddo, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o ddigwyddiadau lle mae lledaenu sylweddol yn bosibl, yn gysylltiedig â lleoliadau dan do sydd wedi'u hawyru'n wael ac sydd â mwy o debygolrwydd o allyriadau aerosol (fel canu/siarad yn uchel, gweithgareddau aerobig) a phan na fydd masgiau yn cael eu gwisgo fel bariau, clybiau nos, partïon/aelodau o'r teulu, bwyta dan do, dosbarthiadau ymarfer corff, corau ac eglwysi (hyder uchel)¹.

Nodweddir deinameg trosglwyddo COVID-19 gan y tueddiad i glystyrau o achosion o heintio ddigwydd mewn rhai amodau (hy fel digwyddiadau lle mae posibilrwydd sylweddol o ledaenu'r haint (SSE) lle mae un neu ychydig o rai heintus yn peri llawer o heintio pellach)¹. Mae tystiolaeth yn dal i awgrymu y gall digwyddiadau lle mae lledaenu ar raddfa fawr chwarae rhan bwysig iawn yn y pandemig/epidemig. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod llai nag 20% o heintiau yn arwain at oddeutu 80% o achosion eilaidd⁸. Felly, mae lleihau'r tebygolrwydd o SSE o'r fath yn hanfodol er mwyn lleihau trosglwyddiad SARS-CoV-2 i lefelau y gellir ymdopi â nhw. Nodwyd yn gyhoeddus y bu nifer o achosion yn gysylltiedig â phriodasau yn y DU a'r byd¹²⁻¹⁴.

Er nad yw'n glir beth, os o gwbl, oedd y mesurau lliniaru neu'r rhagofalon ar waith ar y pryd, nododd Japan, Tsieina, De Korea ac Indonesia fod rhai o'r digwyddiadau yn y gwledydd hynny lle bu lledaenu ar raddfa sylweddol yn gysylltiedig â phriodasau¹. Fodd bynnag, roedd y clystyrau mwyaf yn Hong Kong yn gysylltiedig â throsglwyddo mewn bariau ac mewn neithior, dau leoliad lle nad oedd masgiau yn cael eu gwisgo¹⁰. Gweithgareddau agos fel cynullïadau crefyddol, a phartïon priodas a gyfrannodd fwyaf at ledaeniad y feirws yn Indonesia¹¹.

Mae sawl astudiaeth yn dangos bod llawer o unigolion a heintwyd y rhannu amgylchedd cyffredin lle yr oeddent yn agored i ddal y feirws, fel bwyta dan do⁹. Mae gan rai gweithgareddau hefyd botensial i ledaenu'n eang fel canu a siarad yn uchel mewn amgylchedd dan do⁵, rhywbeth sy'n rhan bwysig o'r rhan fwyaf o seremonïau a dathliadau. Mae'r cynnydd mewn anadlu aer allan sy'n cyd-fynd â'r cynnydd mewn sain/canu yn arwain at fwy o allyriadau aerosol sy'n gallu teithio ymhellach hefyd. Dywed SAGE fod canu, chwarae offerynnau chwyth, a siarad llawer wrth gyflwyno a pherfformio yn weithgareddau risg uchel posibl ar gyfer trosglwyddo SARS CoV-2¹⁵. Mae canu a siarad uchel iawn yn gallu cynhyrchu tua 20-30 gwaith yn fwy o aerosolau (o ran cyfanswm y mas) nag anadlu, canu tawel a siarad (lefel hyder uchel)¹⁵. Yng nghyd-destun priodasau/partneriaethau sifil, mewn sawl ffydd/diwylliant ceir canu/sain uwch fel rhan o'r seremoni a/neu'r digwyddiad dathlu ac felly mae'n cynrychioli risg.

Awgrymodd SAGE fod y risgiau mwyaf o drosglwyddo, gan gynnwys y rheini o ddigwyddiadau sy'n lledaenu'n gyflym, yn gysylltiedig â lleoliadau dan do gorlawn sydd wedi eu hawyru'n wael, gyda mwy o debygolrwydd o allyriadau aerosol (fel canu/siarad uchel, gweithgaredd aerobig)¹. Awgrymwyd bod awyru gwael a gorlenwi yn ffactorau mewn nifer o glystyrau trosglwyddo, yn gynnwys y rheini mewn bariau, eglwysi a chlybiau nos³. Mae nodweddiad y tair ardal hyn yn debyg i'r rhai mewn seremonïau a'r digwyddiadau dathlu. At hynny rhaid bod yn ymwybodol o effaith alcohol a potensial hynny i leihau'r ymwybyddiaeth o risg.

Camau Iliniaru

Mae modd lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhyngweithio cymdeithasol drwy leihau nifer y bobl sy'n dod i gyswllt â'i gilydd; maint eu rhwydweithiau; lleihau nifer y rhwydweithiau sy'n gorgyffwrdd (er enghraifft drwy gyfyngu ar gysylltiadau sy'n cael eu hailadrodd i ddim ond dwy neu dair swigen aelwyd); lleihau hyd digwyddiadau a rhyngweithiadau; a gwneud y gorau o fesurau lliniaru sy'n effeithio ar yr unigolyn (golchi dwylo ac ati), amgylchedd ffisegol a'r mathau o weithgareddau sy'n digwydd (hyder canolig)⁶. Yn y cyfnod cyn y Nadolig ac yng nghyd-destun cyfradd R uchel a cynghorodd SAGE gyfyngu ar yr cyfnod yr oedd pobl yn ei dreulio yng nghwmni ei gilydd, yn enwedig o dan do. Dylid cyfyngu ar ryngweithio dan do gymaint ag y bo modd a chadw hynny ar gyfer cyfnodau byr ar gyfer pethau o bwys⁶.

Mae crynodeb o'r risgiau a'r mesurau lliniaru unigol sydd hefyd yn berthnasol i weithgareddau mewn priodas/partneriaeth sifil ar gael yn Atodiad A: SAGE EMG: Transmission associated with household interactions⁶.

Cyfeiriadau

1. SAGE - SARS-COV-2 TRANSMISSION ROUTES AND ENVIRONMENTS—
22 OCTOBER 2020
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/933225/S0824_SARS-CoV-2_Transmission_routes_and_environments.pdf
2. SAGE Task and Finish Group Key Evidence and Advice on Celebrations and Observances during COVID-19 Nov 2020
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/939166/S0866_Key_Evidence_and_Advice_on_Celebrations_and_Observances_during_COVID-19.pdf
3. Dillon Adam PW, Jessica Wong et al. Clustering and superspreading potential of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) infections in Hong Kong. PREPRINT (Fersiwn 1) ar gael yn Research Square 2020.
4. Leclerc ChJ FN, Knight LE. What settings have been linked to SARS-CoV-2 transmission clusters? [fersiwn 1; adolygwyd gan gymheiriaid: 1 wedi'i gymeradwyo gyda rhai eithriadau]. Wellcome Open Res 2020; 5:83
5. Hasan A, Susanto H, Kasim M, et al. Super spreading in Early Transmissions of COVID19 in Indonesia. medRxiv 2020: 2020.06.28.20142133
6. EMG SAGE: Transmission associated with household interactions
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/939073/S0922_EMG_and_SPI-B -
_Mitigating risks of SARS-CoV-2 transmission associated with household social interactions.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/939073/S0922_EMG_and_SPI-B_-_Mitigating_risks_of_SARS-CoV-2_transmission_associated_with_household_social_interactions.pdf)
7. GOV.UK Stay at home: guidance for households with possible or confirmed coronavirus (COVID-19) infection.
<https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-stay-at-home-guidance/stay-at-home-guidance-forhouseholds-with-possible-coronavirus-covid-19-infection>.
8. Althouse, B.M., Wenger, E.A., Miller, J.C., Scarpino, S.V., Allard, A., Hábert-Dufresne, L. a Hu, H., 2020. Superspreading events in the transmission

- dynamics of SARS-CoV-2: Opportunities for interventions and control. *PLoS Biology* 18(11), p.e3000897.
9. Fisher KA, Tenforde MW, Feldstein LR, et al. Community and Close Contact Exposures Associated with COVID-19 Among Symptomatic Adults ≥ 18 Years in 11 Outpatient Health Care Facilities — United States, July 2020. *MMWR Morb Mortal Wkly Rep* 2020;69:1258–1264. DOI <https://www.cdc.gov/mmwr/volumes/69/wr/mm6936a5.htm>
 10. Dillon Adam PW, Jessica Wong et al. Clustering and superspreading potential of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) infections in Hong Kong
 11. Hasan A, Susanto H, Kasim M, et al. Super spreading in Early Transmissions of COVID19 in Indonesia. *medRxiv* 2020: 2020.06.28.20142133
 12. Mahale P, Rothfuss C, Bly S, et al. (2020) Multiple COVID-19 Outbreaks Linked to a Wedding in Rural Maine. *MMWR Morb Mortal Wkly Rep.* 69:1686-1690. doi:10.15585/mmwr.mm6945a5.
 13. Yusef, D., Hayajneh, W., Awad, S., Momany, S., Khassawneh, B., Samrah, S., Obeidat, B., Raffee, L., Al-Faouri, I., Issa, A. B., Al Zamel, H., Bataineh, E., & Qdaisat, R. (2020). Large Outbreak of Coronavirus Disease among Wedding Attendees, Jordan. *Emerging infectious diseases*, 26(9), 2165–2167. <https://doi.org/10.3201/eid2609.201469>.
 14. Ravindran, B., Hogarth, F., Williamson, K., Wright, R., Kirk, M., & Dalton, C. (2020). High COVID-19 attack rate among attendees of wedding events in Bali, Indonesia, March 2020. *Communicable diseases intelligence* 44, 10.33321/cdi.2020.44.76. <https://doi.org/10.33321/cdi.2020.44.76>
 15. SAGE: Aerosol and Droplet Generation from Singing, Wind Instruments (SWI) and Performance Activities
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/914628/S0695 Aerosol and Droplet Generation from Singing Wind Instruments SWI and Performance Activities.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/914628/S0695_Aerosol_and_Droplet_Generation_from_Singing_Wind_Instruments_SWI_and_Performance_Activities.pdf)